

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

7/11/2017

Presennol: Heledd Jones (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Heledd Jones, Karl Jones, Huw P Roberts, Ian Trow

Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1766 Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau Rhodri Jones ac Alwyn Roberts.

1777 Cyhoedd: Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1778 Buddiant: Derbyniwyd datganiad buddiant gan Huw Antur yn 1790 (1), sef cais cynllunio.

1779 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/10/17

1780 Materion y Clerc : Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn gwneud trefniadau gyda Phennaeth Ysgol O M Edwards ynglŷn â phlannu coed afalau; awgrymwyd croesffordd i Gynllwyd a maes parcio'r fynwent fel safleoedd posib. Derbyniwyd gwybodaeth fod y gwaith o amnewid y camfeydd am gatau ar lwybr yr Aran wedi dechrau a diolchwyd i Wardeiniaid lleol Parc Cenedlaethol Eryri am eu gwaith.

1781 Is bwyllgor y Fynwent: Derbyniwyd adroddiad a chytunwyd i greu pecyn gwybodaeth i ymgymerwyr gyflwyno i deuluoedd fel na fo anwybodaeth am y rheolau. Trafodir hwn hefyd gyda'r Gweinidog.

Mae'r Cyngor yn tacluso'r Fynwent yn y tymor byr mewn paratoad at greu mynwent lawnt yn y tymor hir; bydd hyn yn cynnwys gwaith llenwi, lefelu, ail-hadu a symud cyrbau lle bo hynny'n ymarferol (gwneir pob ymdrech i gysylltu gyda theuluoedd).

Neilltuir rhan o'r fynwent ar gyfer claddu llwch.

Cytunwyd i hysbysebu cytundeb 3 mlynedd i gynnal a chadw'r fynwent.

1782 Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir, Alan Jones Evans. Soniodd am agoriad swyddogol ystafell STEM yn Ysgol O M Edwards, lle fydd y disgyblion yn defnyddio'r offer diweddaraf i ddatblygu eu sgiliau gwyddonol, peirianyddol, cyfrifiadurol a mathemategol. Cyfarwyddwr newydd GWE (chwe sir y gogledd), sef Arwyn Thomas, a berfformiodd y seremoni agoriadol o'r adnodd gwerthfawr ac arloesol hwn. Adroddodd hefyd y bydd ysgolion Penllyn yn elwa yn fuan o gynllun peilot y Llywodraeth i roi gofal blynyddoedd cynnar am ddim i blant rhieni sydd mewn gwaith.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cytunodd gyda'r Cynghorwyr ei fod yn drist fod y gefnogaeth i wasanaethau ieuencid yn dod i ben oherwydd toriadau, ond dywedodd fod cynlluniau ar y gweill i geisio lliniaru'r effaith.

Atebodd ymholiad arall am ddyfodol y Canolfannau Hamdden gan ddweud bod trafodaeth ar greu strwythur hyd-braich i'w cynnal.

1783 Un Llais Cymru: Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd o'r hyfforddiant diweddar.

1784 Y Noson Goffi: Mae'r is-bwyllgor yn mireinio'r trefniadau i gynnal y noson goffi flynyddol er budd achos da yn y flwyddyn newydd.

1785 Nadolig: Cytunodd Ian Trow, Karl Jones ac Alwyn Jones i sicrhau coeden Nadolig gyda goleuadau.

1786 Materion Eiddo'r Cyngor: Cytunodd Karl Jones i drwsio'r fainc ar lwybr y Garth.

1787 Materion ariannol: Cymeradwywyd y taliadau a wnaethpwyd gan y Swyddog Ariannol yn ystod y mis.

Cytunwyd fod angen defnyddio'r arian a gytunwyd o dan "Her Gwynedd" i wneud gwaith yn lleol. Cytunodd y Cadeirydd i drafod gyda swyddogion a pherchnogion union natur y gwaith sydd ei angen i wella llwybr Cae Ceunant. Ystyriwyd gwaith uwchraddio sylfaenol sydd ei angen yn y toiledau. Trafodwyd hefyd yr angen i wella ardal lloches bws Tŷ'n Ddôl. Cytunodd Alwyn Jones ac Arwel Lloyd Jones i wneud gwaith tacluso o fewn y lloches.

1788 Materion lleol: Trafodwyd awgrymiadau am enw i'r bont troed newydd dros yr Afon Lliw.

1789 Partneriaeth Penllyn: Nid oedd gan y Cynrychiolwyr dim i'w adrodd.

1790 Gohebiaeth:

1. Parc Cenedlaethol Eryri: Ystyriwyd

Cais NP5/71/E467B i gadw llinell foltedd uchel wrth Craig y Tân - Cymeradwywyd.

Cais NP5/71/474 Adeiladu adeilad storio/garej, Glofer – darllenwyd llythyron yn mynegi gwrthwynebiad a chytunwyd i wrthwynebu'r cais

2. Llywodraeth: Derbyniwyd gwybodaeth am yr Arolwg o ffiniau Etholaethol

Cytunodd y Clerc i roi ystyriaeth bellach i Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref.

3. Gwynedd: Derbyniwyd pecyn gwybodaeth *Hunaniaith*.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 5/12/17 yn y Neuadd Bentref
Amser gorffen: 9.50pm